Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus
Yn Cwmpasu Canol Dinas Abertawe

Mae Cyngor Abertawe, drwy arfer ei bwerau o dan Adran 59 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("y Ddeddf") yn gwneud y Gorchymyn canlynol, gan ei fod yn fodlon ar sail resymol fod gweithgareddau mewn man cyhoeddus, sef Canol Dinas Abertawe, wedi cael neu'n debygol o gael effaith andwyol ar ansawdd bywyd y rheini yn yr ardal a bod y gweithgareddau hyn yn cynnwys ymddygiadau gwrthgymdeithasol amrywiol. At hynny, mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe o'r farn bod effaith, neu effaith debygol y gweithgareddau a grybwyllwyd yn, neu'n debygol o fod yn gyson neu barhaus eu natur, gan wneud y gweithgareddau'n afresymol a chan gyfiawnhau'r cyfyngiad a osodir gan y Gorchymyn hwn:-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9/12/2021 a bydd ar waith am gyfnod o 3 blynedd wedi hynny, oni chaiff ei ymestyn drwy orchymyn pellach o dan bwerau statudol y Cyngor.

2. Enw'r Gorchymyn Arfaethedig yw Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Dinas a Sir Abertawe ar gyfer Canol y Ddinas.

3. Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn berthnasol i'r tir a nodir gan y map atodedig, sef tir yn ardal awdurdodaeth y Cyngor, a chaiff ei amddiffyn drwy gyflwyno'r Gorchymyn Arfaethedig hwn ("yr Ardal Gyfyngedig").

4. Ni chaiff unrhyw berson droethi neu ysgarthu yn y stryd neu mewn man cyhoeddus.

4a. Bydd eithriadau'n berthnasol pan fo troethfeydd/toiledau cyhoeddus dros dro awdurdodedig wedi'u darparu'n unol ag unrhyw fanyleb a gyhoeddwyd gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a chyda'i gytundeb

5. Ni chaiff unrhyw berson gardota mewn modd sy'n ymosodol neu'n fygythiol neu sy'n debygol o aflonyddu ar aelod o'r cyhoedd, ei frawychu neu beri gofid iddo o fewn yr ardal gyfyngedig.

6. Ni chaiff neb (naill ai'n unigol neu mewn grŵp) ymddwyn mewn modd sy'n achosi, neu'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu ofid i aelod o'r cyhoedd. Bydd pobl sy'n torri'r gwaharddiad hwn, pan cânt eu gorchymyn i wneud hynny gan Swyddog Heddlu, yn gwasgaru ar unwaith neu o fewn amser a bennir ac mewn modd a bennir gan y Swyddog Heddlu a enwyd, ac mae peidio â gwneud hynny yn torri'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb o fewn yr Ardal Gyfyngedig:

7a. Lyncu, mewnanadlu, chwistrellu, smygu neu ddefnyddio fel arall sylweddau dan reolaeth neu feddwol.

7b. Gwerthu neu gyflenwi sylweddau rheoledig neu feddwol.

7c. Rhoddir y diffiniad canlynol ar gyfer sylweddau meddwol (y cyfeirir atynt yn gyffredin fel "cyffuriau penfeddwol cyfreithiol")
Sylweddau sydd â'r gallu i ysgogi neu iselu'r system nerfol ganolog (nid yw'n cynnwys alcohol). Bydd eithriadau'n gymwys mewn achosion lle defnyddir y sylweddau ar gyfer defnydd meddyginiaethol dilys ac amlwg, lle cânt eu rhoi i anifail fel meddyginiaeth, os ydynt

yn sigaréts (tybaco) neu e-sigaréts neu'n fwydydd (i gynnwys diodydd) a reoleiddir gan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch bwyd.

7ch. Bydd pobl sy'n torri'r gwaharddiad hwn yn rhoi'r gorau i ddefnyddio unrhyw sylwedd o'r fath ac yn ei ildio pan ofynnir iddynt wneud hynny gan swyddog awdurdodedig yn yr Ardal Gyfyngedig.

8. Er mwyn atal niwsans neu anhrefn cyhoeddus, ni chaiff unrhyw berson o fewn yr ardal gyfyngedig wrthod rhoi'r gorau i yfed alcohol na throsglwyddo unrhyw gynwysyddion (wedi'u selio neu heb eu selio) y credir eu bod yn cynnwys alcohol, pan gofynnir iddynt wneud hynny gan swyddog awdurdodedig.

9. Ni fydd yr amodau ym Mharagraff 8 uchod yn gymwys i'r canlynol:

9a Mangreoedd a awdurdodir gan Drwydded Mangre i'w defnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol;

9b Mangreoedd a awdurdodir gan dystysgrif mangre clwb i'w defnyddio gan y clwb ar gyfer cyflenwi alcohol;

9c Lle o fewn cwrtil y mangreoedd ym Mharagraffau 9 (a) neu (b);

9ch Mangreoedd a all, yn rhinwedd Rhan 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003, gael eu defnyddio ar yr adeg berthnasol ar gyfer cyflenwi alcohol neu a all, yn rhinwedd y Rhan honno, fod wedi cael eu defnyddio felly o fewn 30 munud cyn yr amser hwnnw;

9d Man lle mae cyfleusterau neu weithgareddau sy'n ymwneud â gwerthu neu yfed alcohol yn digwydd ar yr adeg berthnasol a ganiateir yn rhinwedd caniatâd a roddwyd o dan Adran 115 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (defnyddiau sy'n gysylltiedig â'r briffordd)

10. Mae person sy'n euog o'r drosedd o beidio â chydymffurfio â'r Gorchymyn Arfaethedig o dan Adran 67 o'r Ddeddf yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol neu os yw'n derbyn Hysbysiad o Gosb Benodol, gosb o £75 ar y mwyaf.

10a Ni chaniateir cymryd unrhyw achos yn erbyn y drosedd cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad; a

10b. Ni chaniateir euogfarnu'r person o'r drosedd os yw'r person yn talu'r hysbysiad o gosb benodol cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

10c. Bydd ffi ad-dalu cynnar o £50 yn gymwys os telir yr hysbysiad o gosb benodol o fewn 7 niwrnod

11. Mae unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn parhau i yfed alcohol yn yr Ardal Gyfyngedig pan ofynnir iddo peidio â gwneud hynny gan berson awdurdodedig o dan Adran 63, neu sy'n peidio ag ildio unrhyw sylwedd meddwol yn ei feddiant pan ofynnir iddo wneud hynny gan berson awdurdodedig o dan Adran 63, yn cyflawni trosedd ac yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy na fydd yn uwch na Lefel 2 ar y raddfa safonol neu os yw'n derbyn Hysbysiad o Gosb Benodol, gosb o £75 ar y mwyaf.

12. Wrth ymgynghori ynghylch y Gorchymyn Arfaethedig hwn, mae'r Cyngor wedi rhoi sylw arbennig i'r hawliau i ryddid mynegiant a rhyddid ymgynulliad a nodir yn Erthyglau 10 ac 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

13. Yn unol ag Adran 66 o'r Ddeddf, caiff unrhyw berson a chanddo fuddiant sy'n dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y pŵer i wneud y

Gorchymyn neu na chydymffurfiwyd â gofyniad o dan y Ddeddf wneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y gwneir y Gorchymyn.

Rhoddir o dan Sêl Gyffredin
Cyngor Dinas a Sir Abertawe

Atodiad

Train Station
Parc Tawe
City Centre
Mount Pleasant
Afon Tawe / Riv
Quadrant Centre
Bus Sta
Govt Offices
Car Park
Quay West
Court
Castle
Plantasia
Sail Bridge
Slipway
Mannheim Quay
Tawe Basin
Swing Bridge
Arts Centre
Mus
New Cut Bridge
HM Prison
Dolphins
Market
Subway
© Crown Copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100023509
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023509